Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Panel Craffu

## Ymarfer Hap Samplo

# Adolygiad o Ddigwyddiadau Difrod Troseddol (Rhag 2017-Chwef 2018)

# Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys

## Canfyddiadau Aelodau Panel ac Adborth

Ebrill 2018

## Cynnwys

1.0 Trosolwg .......... 2
2.1 Data cefndir .......... 3
3.0 Cymeradwyaeth y Cadeirydd Panel .......... 4
4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel diwethaf .......... 5
5.1 Arsylwadau .......... 5
6.0 Ystyriaeth o Achosion Trefn Gyhoeddus – drwgdybiedigion sy'n oedolion .......... 8
6.1 Arsylwadau .......... 8
7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn .......... 11
7.1 Arfer da .......... 14
7.2 Meysydd sydd angen eu gwella .......... 14
8.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol .......... 14

## 1.0 Trosolwg

Mewn cyfarfod o'r Panel Craffu ar Waredladau y Tu Allan i'r Llys a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2018, adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion difrod troseddol a gafodd eu trin drwy warediad y tu allan i'r llys.

Ystyriodd y Panel gyfanswm o 20 achos. Roedd 10 achos yn ymwneud â drwgdybiedigion ifainc, ac roedd 10 yn ymwneud â drwgdybiedigion a oedd yn oedolion.

## 2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg

Mae Aelodau Panel yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Maen nhw'n derbyn ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod. Mae'r ffeiliau achos hyn wedi'u dewis ar hap gan y Cadeirydd Panel. Yna, mae'r Panel yn cwrdd i drafod pob achos, a dod i ganlyniad lle bo'n bosibl o ran priodoldeb y gwarediad. **Wrth benderfynu pa gategori mae'r achos yn syrthio iddo, mae'r panel ystyried y meini prawf canlynol:**


- Barn ac adborth y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Y rhesymau dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- Yr effaith bosibl ar y gymuned;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a'r
- Dewisiadau amgen posibl a allai fod ar gael.


Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:


- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau panel;
- Defnydd amhriodol neu'n anghyson â'r polisi; ac
- Mae'r panel yn methu â dod i ganlyniad.

## 2.1 Data cefndir

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y newid o ran defnydd Heddlu Dyfed-Powys o fathau gwahanol o warediadau y tu allan i'r llys dros amser.






## 3.0 Cymeradwyaeth y Cadeirydd Panel

Yr wyf i N. E. POWELL JP. (enw mewn llythrennau bras) yn medru cadarnhau fy mod i wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn llawn gynrychioli'r farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplo ar 23 Ebrill 2018.

Llofnod: [signature]

Dyddiad: 16/7/18.

## 4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel diwethaf

O ganlyniad i waith y Panel Gwaredladau y Tu Allan i'r Llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cymryd ers y cyfarfod diwethaf:

- Anfonwyd gwybodaeth at Brif Arolygwyr y Bartneriaeth URS er mwyn mynd i'r afael â'r mater ynglŷn â dioddefwyr yn derbyn copïau dyblyg gan yr Heddlu a'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid yn lleol.

## 5.0 Ystyriaeth o Achosion Trefn Gyhoeddus – drwgdybiedigion ifainc

Ymdriniwyd â phedwar o'r achosion ieuenctid a ystyriwyd drwy Ddatryslad Cymunedol Ieuenctid a phum achos drwy Waredlad Adferol Ieuenctid, tra bod un wedi derbyn Rhybudd Ieuenctid. Roedd asesiadau aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 9 |
| Priodol gydag amheuon | 0 |
| Amhriodol | 1 |

### 5.1 Arsylwadau

Nodir arsylwadau'r aelodau panel ar bob achos isod.

**Achos 1**

Ni fynegodd yr Aelodau unrhyw bryderon o ran y rhesymwaith a gynhwysir o fewn y ffeil achos a'r penderfyniad canlyniad dilynol. Nid oedd gan y drwgdybiedig unrhyw euogfarnau blaenorol ac roedd ganddo gefndir cryf a sefydlog ar gyfer cymorth ychwanegol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

Roedd y Panel yn fodlon bod y drwgdybiedig wedi derbyn Datryslad Cymunedol Ieuenctid ar gyfer y trosedd a gofnodwyd; cyfaddefodd y drwgdybiedig ei euogrwydd yn llawn, rhoddodd ymddiheuriad wyneb yn wyneb a thalodd am y difrod.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

Ni fynegodd yr Aelodau unrhyw bryderon ynglŷn â'r penderfyniad canlyniad. Roedd y drwgdybiedig yn agored i niwed ac wedi dioddef profiadau niweidiol yn ystod ei blentyndod; roedd y Panel yn teimlo bod Datrysiad Cymunedol Ieuenctid yn briodol yn dilyn trosedd diwethaf y drwgdybiedig.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 4**

Roedd yr Aelodau'n ystyried bod Datrysiad Cymunedol Ieuenctid yn briodol ar gyfer yr achos. Er bod y drwgdybiedig yn dangos patrwm o ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae'n ifanc iawn ac yn agored i niwed. Mae'r drwgdybiedig wedi ymddiheuro'n ysgrifenedig.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

Canfu bod dyddiad geni'r drwgdybiedig wedi'i gofnodi'n anghywir yn y cofnod ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Gan hynny, Datrysiad Cymunedol Oedolyn oedd y canlyniad. Roedd y panel yn teimlo bod hyn yn briodol yn dilyn trosedd diwethaf y drwgdybiedig.

**Asesiad y Panel: Priodol**

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 1**<br><br>Achos 5: Diweddaru cofnod y drwgdybiedig ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu â'r dyddiad geni cywir. |

**Achos 6**

Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r rhesymwaith o fewn y ffeil achos a'r penderfyniad canlyniad dilynol. Nid oedd gan y drwgdybiedig unrhyw euogfarnau blaenorol, ac roedd llythyr o ymddiheuriad wedi'i dderbyn gan y dioddefydd.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achosion 7 ac 8 (achosion cysylltiedig)**

Daeth Aelodau Panel i'r penderfyniad bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol. Fodd bynnag, codwyd cwestiwn ynglŷn â pha un ai a oedd angen cysylltiad yr heddlu, a pha un ai a fyddai modd i'r mater hwn fod wedi'i ddatrys trwy'r ysgol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 9**

Penderfynodd yr Aelodau Panel bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol. Derbyniodd y drwgdybiedig Waredlad Cyfiawnder Ieuenctid am y digwyddiad hwn gan nad oedd yr Heddlu wedi sylwi bod yr unigolyn wedi derbyn Gwarediad Cyfiawnder Ieuenctid o'r blaen ar gyfer achos arall. Gan hynny, nid oedd y canlyniad wedi'i waethygu'n briodol o'r trosedd diwethaf. Roedd y Panel hefyd yn teimlo y dylai'r achos fod wedi'i gofnodi fel 'Bwriad i achosi niwed difrifol' yn hytrach na throsedd difrod troseddol. Gan hynny, roedd difrifoldeb y trosedd wedi'i gofnodi'n anghywir.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Cam Gweithredu 2**

Achos 9: O'r achos hwn, canfu bod gwarediadau cyfiawnder ieuenctid yn cael eu colli weithiau. Gan hynny, nid yw'r gwiriadau Gwarediad Cyfiawnder Ieuenctid a gyflawnir yn effeithiol bob tro. Dylid bwydo effeithlonrwydd gwiriadau Gwarediadau Cyfiawnder Ieuenctid yn ôl i'r Heddlu er mwyn osgoi rhoi mwy nag un Gwarediad Cyfiawnder Ieuenctid i unigolyn.

**Cam Gweithredu 3**

Achos 9: Cofnodwyd yr achos hwn yn anghywir fel difrod troseddol. Dylid fod wedi'i gofnodi fel 'Bwriad i achosi niwed difrifol'. Dylid diweddaru'r adroddiad a'i ddiwygio ar y system.

**Achos 10**

Cytunodd yr Aelodau Panel bod Gwarediad Cyfiawnder Ieuenctid yn briodol ar gyfer yr achos hwn gan nad oedd gan y drwgdybiedig unrhyw hanes blaenorol o droseddu. Fodd bynnag, roedd y panel yn teimlo y gallai'r digwyddiad o bosibl fod wedi'i drin yn fewnol gan yr ysgol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Cam Gweithredu 4**

Achos 10: Mae angen ymagwedd gydlynol gydag Addysg – Datrysiad mewn ysgolion. Mae rhai achosion yn cael eu cyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid pan mae'n bosibl y gallant gael eu trin gan yr ysgolion.

## 6.0 Ystyriaeth o Achosion Trefn Gyhoeddus – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd Aelodau Panel 10 achos oedolyn. Cafodd 1 ei drin drwy Rybudd, 4 drwy Rybudd Amodol, a 5 drwy Ddatrysiad Cymunedol Oedolyn. Roedd asesiadau'r aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 5 |
| Priodol gydag amheuon | 3 |
| Amhriodol | 2 |
| Panel Wedi Methu â Dod i Gasgliad | 0 |

### 6.1 Arsylwadau

Nodir arsylwadau'r aelodau panel ar bob achos isod.

**Achos 11**

Roedd yr aelodau Panel yn teimlo bod canlyniad yr achos hwn yn anghyson â'r Polisi wrth ei waredu, gan mai achos difrod troseddol oedd hwn o fewn sefyllfa ddomestig. Fodd bynnag, nododd y Panel bod y penderfyniad wedi'i gymeradwyo gan yr Arolygydd ac nid oedd y dioddefydd eisiau dwyn unrhyw gyhuddiadau pellach.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 12**

Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r rhesymwaith o fewn y ffeil achos a'r penderfyniad canlyniad dilynol. Nid oedd gan y drwgdybiedig unrhyw euogfarnau blaenorol ac roedd amodau wedi'u bodloni.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 13**

Ni fynegodd yr Aelodau unrhyw bryderon ynglŷn â'r rhesymwaith o fewn y ffeil achos a'r penderfyniad canlyniad dilynol. Roedd y troseddwr wedi derbyn rhybudd ac wedi talu iawndal.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 14**

Roedd y Panel yn teimlo bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol. Roedd y troseddwr wedi derbyn Rhybudd Amodol, a gan fod yr achos yn ymwneud â throsedd domestig, dylai'r canlyniad hwn fod wedi bod yn anghymwys. Roedd yr Aelodau'n teimlo mai rhybudd ddylai'r canlyniad fod wedi bod.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 15**

Roedd y Panel yn teimlo bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol ac y dylai'r troseddwr fod wedi derbyn rhybudd yn lle rhybudd amodol. Roedd yr achos yn gysylltiedig â throsedd domestig, gyda'r troseddwr yn derbyn hysbysiad trais domestig.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 16**

Penderfynodd yr Aelodau Panel bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol. Roedd y dioddefydd wedi cytuno i Ddatrysiad Cymunedol Oedolyn ac roedd y troseddwr wedi ymddiheuro a thalu am y difrod.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 17**

Roedd y Panel yn fodlon â chanlyniad y gwarediad hwn. Roedd y troseddwr wedi talu iawndal ac roedd y dioddefydd yn fodlon â Datrysiad Cymunedol Oedolyn fel canlyniad.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 18**

Mynegodd yr Aelodau bryder bod yr achos yn cynnwys Trosedd Casineb o ganlyniad i'r sylwadau hiliol a wnaed adeg yr arést. Roedd y Panel yn teimlo y dylid fod wedi cofnodi'r achos hwn fel digwyddiad trosedd casineb a difrod troseddol ar y system.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 19**

Roedd yr Aelodau'n fodlon â chanlyniad yr achos hwn. Nid oedd gan y troseddwr unrhyw euogfarnau blaenorol a rhoddwyd gorchymyn atal mewn grym.

**Asesiad y Panel: Priodol**


**Achos 20**

Roedd y Panel yn teimlo bod angen cofnodi gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r achos hwn. Teimlwyd y gallai'r achos hwn fod yn ddigwyddiad trefn gyhoeddus yn ogystal â digwyddiad difrod troseddol.


**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

## 7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

Mae'r graff isod yn dangos asesiad y Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.





Ers mis Ebrill 2013, mae'r Panel wedi ystyried amrediad o waredladau, fel y dangosir yn y graff isod.




O'r 219 achos a gafodd eu harchwilio rhwng Ebrill 2013 ac Ebrill 2018[1], aseswyd bod 55% yn briodol, 25% yn amhriodol, a 18% yn briodol gydag amheuon. Methodd y panel â dod i gasgliad mewn 2% o achosion.

Ar y cyfan, bu cynnydd yn nifer yr achosion y mae'r Panel wedi ystyried sydd â gwarediadau priodol. Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.





[1] Cwmpesir gweithgarwch y Panel o fis Tachwedd 2013 tan fis Ionawr 2018.

Mae'r graff isod yn dangos y crynodeb yn ôl math o drosedd fel canran o achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 ac Ebrill 2018.




Mae'r graff canlynol yn dangos gwir nifer yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 ac Ebrill 2018.



### 7.1 Arfer da

Mae'r enghraifft ganlynol o arfer da wedi'i nodi o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- O fewn pob achos ieuenctid a gafodd eu hap samplo namyn un, roedd y Panel yn fodlon â'r rhesymwaith a nodwyd o fewn y ffeiliau achos, a arweiniodd at y canlyniad gwaredu priodol.

### 7.2 Meysydd sydd angen eu gwella

Nodwyd dau faes penodol sydd angen eu gwella o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- O fewn nifer o'r ffeiliau achos a hap samplwyd, canfu bod angen mwy o wybodaeth a'i bod hi'n bosibl fod troseddau ychwanegol o fewn y drosedd a oedd yn cael eu colli a ddim yn cael eu cofnodi. Er enghraifft, roedd digwyddiadau troseddau casineb a threfn gyhoeddus yn gysylltiedig ag achosion difrod troseddol.
- Trafododd y Panel y ffaith bod Gwarediadau Adferol Ieuenctid blaenorol weithiau'n cael eu colli, sy'n arwain at unigolyn yn derbyn Gwarediad Adferol Ieuenctid arall yn hytrach na bod y canlyniad yn cael ei ddwysau'n briodol.

## 8.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

Yn dilyn argymhelliad gan SCHTh, cytunodd yr Aelodau i ystyried gwarediadau y tu allan i'r llys sy'n ymwneud â digwyddiadau Byrgleriaeth yng nghyfarfod nesaf y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys.